YR YMOFYNYDD.

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

CYFRES NEWYDD.] AWST, 1900. [RHIF 152.

"GARTREF GYDA DUW."*

GAN Y PARCH. E. CEREDIG JONES, M.A.

"*Un peth a ddeisyfais i gan yr Arglwydd, hyny a geisiaf; sef caffael trigo yn nhŷ yr Arglwydd holl ddyddiau fy mywyd, i edrych ar brydferthwch yr Arglwydd, ac i ymofyn yn Ei deml.*"—SALM XXVII. 4.

"*Deuwch, addolwn, ac ymgrymwn: gostyngwn ar ein gliniau ger bron yr Arglwydd ein Gwneuthurwr.*"—SALM XCV. 6.

GYFEIRIA y Salmydd yn y geiriau hyn at yr addoliad cyhoeddus a gynelid yn y deml yn Jerusalem. I blant Israel, nid oedd un lle ar y ddaear yn fwy anwyl. Yno teimlent eu bod gartref gyda Duw, a'u bod yn ddyogel dan nawdd Ei gariad. Dywed y Salmydd: "Llawenychais pan ddywedent wrthyf, Awn i dŷ yr Arglwydd. Ein traed a safant o fewn dy byrth di, O Jerusalem; yno yr esgyn y llwythau, llwythau yr Arglwydd . . . i folianu enw yr Arglwydd."

Mae rhyw deimlad o'r fath hyn yn llanw ein mynwesau heddyw, pan yn ymgynull yn y fangre gysegredig hon i agor tŷ addoliad. Ar y llecyn creigiog hwn bu pobl yr ardal yn addoli am oesau. Mae yr achos da wedi blodeuo yn y gymydogaeth hon am ddau cant a haner o flynyddoedd, sef llawn un ran o wyth o'r cyfnod Cristionogol. Dichon mai rhyw saith ugain a phump neu chwech mlynedd yn ol yr adeiladwyd yr hen gapel ar y sylfaen yma; ond nid oes dadl nad oedd yr achos wedi bodoli yn y plwyf gan' mlynedd neu ragor cyn hyny. Eglwys Ymneillduol henafol Ciliau Aeron ydyw mam holl eglwysi Ymneillduol Caholbarth Ceredigion. Yn awr yn ei henaint, mae yn

* Pregeth a draddodwyd ar yr achlysur o ail-agoriad capel Ciliau Aeron.

adnewyddu ei nerth. Heddyw, mewn agwedd allanol, mae cyn hardded â neb o'i merched mwyaf llewyrchus. Hefyd, mewn ystyr ysbrydol, mae yn fyw ac yn iach. Mae ei chalon yn curo mewn cydgordiad â'r syniadau mwyaf goleuedig, ac â darganfyddiadau diweddaraf yr oes.

Yn hanes eglwys, fel yn mywyd dyn, mae cyfnewidiadau mawr yn cymeryd lle. Un tro, mae yn flodeuog a llwyddianus; bryd arall, mae yn wael ac isel ei hysbryd. Dyna ydyw hanes y ddeadell hon. Bu lawer gwaith dan gwmwl du, ond mae'r haul yn tywynu arni heddyw. Y boreu hwn, mae yn taflu ei golwg tua'r dyfodol, ac yn addunedu ger bron Creawdwr nef a daear i gadw llusern crefydd bur a dihalogedig yn fyw yn yr ardal freintiedig hon.

Mae rhai ohonom wedi bod am amser maith yn dysgwyl am wawriad y dydd hwn, pan agorid teml fwy teilwng o'r achos da na'r hen adeilad. Mae'r boreu wedi d'od o'r diwedd, ac nis gallwn lai na dyweyd: "Dyma y dydd a wnaeth yr Arglwydd; gorfoleddwn a llawenychwn ynddo; atolwg, Arglwydd, achub yn awr; atolwg, Arglwydd, pâr yn awr lwyddiant." Heddyw, pan ydym yn adsefydlu ein "cymdeithas" grefyddol henafol ar y llanerch hoff hon—llanerch ag sydd wedi ei chysegru gyda gweddiau, dagrau, a llawenydd hen seintiau yr ardal—priodol yw i ni i ystyried rhai o brif nodweddion Eglwys Gristionogol. Ceisiaf dynu eich sylw yn arbenig at ddau o neillduolion tŷ Dduw.

I. Ystyriwn dŷ Dduw fel Cartref Crefyddol.

II. Nodwn y budd a ddeillia oddiwrth Addoliad Crefyddol.

I.

Mae yn naturiol fod genym barch tuag at y lle yr ymgynullwn ynddo i addoli Duw. Mae ein haddoldy yn ail gartref i ni, o gylch yr hwn y glyna yr adgofion mwyaf dedwydd, fel yr eiddew gwyrdd wrth wyneb y graig. Yno teimlwn ein bod gartref gyda Duw ein Tad. Fel y mae cenedloedd yn dyfod dan ddylanwad gwareiddiad, neillduant ryw adeilad neu adeiladau, yr harddaf a feddant, fel lleoedd i addoli Hollalluog Greawdwr nef a daear. Nid oedd temlau gorwych Groeg a Rhufain yn yr hen amser, er mai paganaidd yr addoliad, yn ddim llai na datganiad o ddymuniad dyn i wneyd cartref crefyddol iddo ei hun, lle y gallai deimlo yn gartrefol gyda'i Dduw. Yn mhob man o'r byd, mae'r duedd i adeiladu temlau i Arglwydd y lluoedd yn gryf iawn. Canfyddwn bobl o bob gradd o ddiwylliant yn rhoddi y goreu a feddant tuag at wasanaeth *Rhoddwr* pob dawn berffaith. Yr ydym yn cael engraifft o'r un haelfrydedd a'r un sêl grefyddol yn y darpariadau ar gyfer adeiladu teml Solomon. Rhoddid y defnyddiau goreu tuag at y gwaith, a'r trysorau mwyaf drudfawr i'w haddurno. Ni ystyriai addolwyr dwyfolfrydig Jehofah ddim yn rhy werthfawr i'w roddi tuag at yr adeilad sanctaidd ag oedd i fod yn arwydd iddynt o'r Presenoldeb Dwyfol. Yr oedd prydferthwch tŷ yr Arglwydd i'w hadgofio o'u dyledswydd i'w addoli Ef yn "mhrydferthwch sancteiddrwydd."

Rhyw deimlad o'r natur hyn a barodd i'r Salmydd ddyweyd gyda'r fath serch tuag at ei gartref crefyddol: "Un peth a ddeisyfais i gan yr Arglwydd, hyny a geisiaf; sef caffael trigo yn nhŷ yr Arglwydd holl ddyddiau fy mywyd; i edrych ar brydferthwch yr Arglwydd, ac i ymofyn yn Ei deml." Cafodd ei brif ddyddanwch a'i ddyogelwch mewn cymundeb agos â'r Tragywyddol Fôd yn nhŷ gweddi. Felly ä yn mlaen i ddyweyd: "Canys yn y dydd blin y'm cuddia o fewn Ei babell; yn nirgelfa Ei babell y'm cuddia; ar graig y'm cyfyd i."

Olrheiniwn hanes y serch yma tuag at dŷ gweddi i lawr i amser yr Iesu, a sylwn fod ganddo *Ef* yr un parch dwfn tuag at gartref crefyddol Ei genedl. Mynychai addoliad cyhoeddus yn rheolaidd ar y seithfed dydd, pa un ai yn synagogau Galilea neu yn y deml yn Jerusalem pan arosai yno. Pan welodd y deml yn cael ei halogi gan dorfeydd o bobl a gyrchent yno er mwyn elw bydol, cynhyrfid Ei ysbryd o'i fewn, a dywedai: "Na wnewch dŷ Fy Nhad I yn dŷ marchnad." Felly, awgryma y dylai ein cartref crefyddol fod yn rhydd oddiwrth bobpeth ag sydd dueddol i fod yn rhwystr i'r teimlad o addoliad a myfyrdod ar bethau ysbrydol. Fel pob cartref hoff, dylai tŷ gweddi fod yn aneddle heddwch ac ewyllys da.

Drwy yr oesau, o amser Crist hyd yn awr, mae yr eglwysi wedi bod yn gartrefi crefyddol i'r bobl; ac fel y cyfryw, maent wedi bod o fendith anhraethadwy i'r byd.

Felly, pan ymwelaf â gwahanol leoedd o addoliad, nis gallaf lai na'u hystyried oll, gan nad o ba enwad y byddont, yn dystion hyawdl o dduwioldeb dwfn a ffydd ddiysgog y bobl. Maent oll yn gartrefi crefyddol, y rhai a ystyrir yn gysegredig iawn gan y cyfryw a'u mynychant. Gallwch fod yn sicr, pan fo pobl yn barod i wneyd rhyw aberth dros eu crefydd, *eu bod yn credu ynddi.* Ffyna yr un egwyddor mewn crefydd ag yn ein bywyd cymdeithasol. Po fwyaf didwyll fyddo ein *cariad,* mwyaf i gyd o aberth ydym yn barod i'w wneyd dros ei wrthrych, pa un fyddo ai enaid dynol ai ein Tad o'r nef.

Mae yn wir ein bod ni, y rhai a addolwn yma heddyw, yn ystyried pob lle yn "ddaear sanctaidd" lle yr ymgryma dyn o flaen ei Dad Nefol mewn ysbryd ac mewn gwirionedd. Am bob man lle triga cariad, a lle y gwrandewir ar lais cydwybod fel llais o'r nef, gellir dyweyd yn ngeiriau'r patriarch gynt: "Mor ofnadwy yw y lle hwn! Nid oes yma onid tŷ i Dduw, a dyma borth y nefoedd." Tra yr wyf yn hollol ymwybodol o'r ffaith hon, rhaid i mi gyfaddef, pan gyflwynwn dŷ, fel ag y gwnawn heddyw, i wasanaeth Duw, ac y neilldwen ef fel cartref crefyddol, ei fod yn meddu sancteiddrwydd arbenig. Ynddo gallwn addoli a myfyrio yn y modd mwyaf manteisiol. Ni ddeuwn i'r lle hwn yn unig i gael ein hyfforddi—i wrando y *bregeth,* y *weddi,* a'r *canu*—ond i addoli Duw, canys hyn yw prif amcan ein cydgyfarfod o fewn y muriau hyn. Yr ydym yn dyfod at ein gilydd yn nystawrwydd dydd gorphwys i ddal cymundeb â'n Tad yn ein cartref crefyddol. Mae yn wir y dylai fod yn mhob oedfa adeiladaeth sylweddol, gweddiau grymus, a cherddoriaeth bêr a swynol i'n hadgofio mai plant y nefoedd ydym; ond dylai y pethau hyn gael eu hystyried

fel moddion er cyrhaedd dyben neillduol—fel help i addoli Duw yn y fath fodd fel y byddo i ni deimlo ein bod gartref gydag Ef, a'n bod yn awyddus i'w ufuddhau yn yr oll a wnawn.

1. Pan yr ystyriwn yr Eglwys fel ein cartref crefyddol, gwelwn yr angenrheidrwydd o wneyd tŷ Dduw *mor hardd ag mae yn bosibl.* Yn y dyddiau hyn, mae pobl ag sydd ganddynt ychydig o hunanbarch yn ceisio gwneyd eu cartrefi mor brydferth ag y medrant. Mae hyn yn ganmoladwy iawn, oblegid mae pob peth sydd wir hardd yn tueddu i ddiwyllio yr enaid. Ar yr un egwyddor yn gywir dylem wneyd ein cartref crefyddol yn wir hardd, fel ag y byddem yn alluog i ddyweyd o eigion ein calonau: "Un peth a ddeisyfais i gan yr Arglwydd, hyny a geisiaf; sef caffael trigo yn nhŷ yr Arglwydd holl ddyddiau fy mywyd, i edrych ar brydferthwch yr Arglwydd, ac i ymofyn yn Ei deml."

Fel ad-daliad am yr aneirif fendithion a dderbyniwn o ddydd i ddydd o dyner law ein Tad Nefol, dysgwylir arnom i wneyd yr hyn a allom i addurno y tŷ yn yr hwn yr ymunwn â'n perthynasau, ein ceraint, a'n cydnabod yn ein gwasanaeth o fawl a gweddi. Gyda budd mawr i'n heneidiau gallem wneyd harddwch ein cartref crefyddol yn foddion i'n dwyn i gymundeb agosach âg Awdwr pob peth prydferth.

2. Ar y llanerch hon mae rhai ohonoch wedi bod yn addoli drwy gydol eich oes. Mae y lle yn anwyl iawn i chwi. Yma y daeth eich hoff rieni â chwi yn eich mabandod i'ch cyflwyno i wasanaeth Duw. Yma yr ynganoch yn eich mebyd nodau cyntaf cân a moliant. Yn yr hen addoldy anwyl ar y fan hon cawsoch eich cadw mewn cyffyrddiad bywiol â'r dylanwadau goreu—y dylanwadau ysbrydol hyny a'n cynorthwyant i ufuddhau i lais cydwybod, ac i rodio yn llwybrau rhinwedd. Yn ystod y blynyddoedd—pa un ai blynyddoedd o hawddfyd neu adfyd—yr ydych wedi ymgrymu o wythnos i wythnos ger bron Rhoddwr pob bendithion yn y fan hon. Yma yr ydych wedi cymdeithasu â brodyr a chwiorydd o'r un gred. Yma yr ydych wedi arfer cyfarch cyfeillion, yr hyn, yn gystal ag Efengyl y Cariad Tragywyddol a bregethir i chwi, sydd wir foddion gras i'r enaid. Yma yr ymgyrchwch pan fo'ch calon yn isel a phrudd, yn gystal a phan fo'ch yn llawen eich ysbryd, i geisio "tangnefedd Duw, yr hwn sydd uwch-law pob deall.

Heddyw mae llawer o hen adgofion yn adgyfodi yn ein mynwesau. Os goddefwch i mi ddyweyd fy mhrofiad fy hun, teimlaf na fydd tragywyddoldeb yn rhy faith i ddiolch i Dduw am y lles moesol ac ysbrydol a dderbyniais yn moreu fy oes wrth allor Duw yn y lle hwn. Ar y dydd hapus hwn, ni allaf anadlu gweddi well na bod yr ieuenctyd a ymgynullant i addoli yn y tŷ newydd i dderbyn yr un budd i'w heneidiau ag a dderbyniais i o fewn i furiau yr hen gapel.

3. Gan fod tŷ Dduw fel hyn yn *gartref*, dylai fod yn drigfa undeb a thangnefedd. Yr ydym yn gwybod am gartref dedwydd, fod pob un o'r teulu yn ymdrechu gwneyd rhywbeth i ychwanegu at gysur a hapusrwydd y gweddill o'r rhai a drigant o dan yr un gronglwyd. Dichon eu bod yn gwahaniaethu yn fawr yn eu chwaeth a'u diwylliant, ond eto cedwir hwy yn nghyd yn nghwlwn tangnefedd gan rwymyn

euraidd cariad, ac mae'r lle yn ail baradwys. Lle nad yw cariad yn llywodraethu, nid yw tŷ *yn gartef*. Nid yw ond math o garchardy, lle mae'r carcharorion o'i fewn braidd yn goddef eu gilydd. Ystyr y gair Cymraeg cartref ydyw *Car-dref*—hyny yw, "trigfan cariad." Mae yr un egwyddor yn ganfyddadwy yn mywyd cynulleidfa. Yn awr, gan ein bod wedi gwneyd ein cartref crefyddol yn hardd a chysurus yn y fan hon, rhaid i ni hefyd ei wneyd yn siriol ac anwyl gyda theimladau caredig yn nhufewnol ddyn y galon bryd bynag yr ymgynullwn yma i addoli Duw.

Yn enw Duw'r Cariad, ein Tad, yr Hwn sydd yn y nefoedd, yr Hwn a addolwn, erfyniaf arnoch i beidio byth a d'od o fewn i'r muriau hyn os nad ydych yn barod i adael pob teimlad angharedig tuallan i'r trothwy. Yma dysgwylir arnom oll i gydgyfarfod o bryd i'w gilydd fel brodyr a chwiorydd o'r un meddwl ac ysbryd—fel rhai ag ydynt awyddus i gynorthwyo ac anog ein gilydd tra y teithiwn yn mlaen i dragywyddoldeb.

Yn ein heglwysi yn Lloegr, mae'r teimlad ar gynydd nad yw yn beth gweddus i neb fynychu addoliad i farnu yr hyn a glywir yno. Yn nhŷ Dduw, nid ymgynullwn i eistedd mewn barn, ond i gydaddoli Arglwydd y lluoedd. Mae ysbryd barnu yn dueddol i ddiffodd y teimlad a ddylem wrteithio o flaen gorsedd gras. Offrymir y weddi i Dduw, a chenir yr emynau a'r anthemau, nid er boddio chwaeth yr addolwyr, ond er clod i'r Hwn a'n cynal bob enyd megys ar gledr Ei anfeidrol law.

Bwriedir yr Ysgrythyr a ddarllenir, a'r bregeth a draddodir, fel moddion i ddyfnhau yr ymwybodolrwydd o Dduw yn nghalonau yr addolwyr, ac i ddatguddio iddynt anfarwol harddwch bywyd pur a difrycheulyd. Nid oes ond Un yn unig a fedd gymhwysder i farnu addoliad crefyddol, sef Duw Ei Hun. Felly, os dymunwch chwi gael adeiladaeth oddiwrth eich cydgynulliad achlysurol yn eich cartref crefyddol o fewn i'r muriau hyn, rhaid i chwi ddyfod yma mewn ysbryd addolgar.

(*I'w barhau*).

Y MORGRUGYN.

(CYD-FUDDUGOL.)

NWYFUS, gofalus filyn,—da weithiwr
Yw'r doethwych Forgrugyn ;
Eithriadol athraw wed'yn,
Hawlia ei daith sylw dyn.

Glan Cerdin. T. THOMAS.

AWST.

ACHEINION y Trofanau dychwelodd Awst yn ol,
Aur melyn yn ddyrneidiau, o'i gistiau, gaiff y ddôl ;
Nes tori maes i ganu yn fwynach nag erioed,
Gan synu a rhyfeddu yr urddas arni roed.

Acenion mwynion cariad ddyhidlent dros y min,
Disgynent ar y teimlad yn ffrwd o nefol rin ;
O'r galon pob rhyw gwmwl o brudd-der sydd yn ffoi,
Holl bryder dwys y meddwl i fwyniant sydd yn troi.

Yn eistedd mae tangnefedd, fel angel ar bob bryn,
A chefnfor o orfoledd orwedda yn mhob glyn ;
Rhyw ddirgel gudd ddylanwad dry'r meusydd oll yn fyw,
Per gerdd eu gweddnewidiad, clust deneu'r awen glyw.

Ar fin y gamfa dawel, caf draw orphwysfa glyd,
I olrhain rhawd yr awel drwy'r tonog, heulog ŷd ;
Amaethwr, brysia allan o'r tô y cryman tyn,
Dyheu am borth dy ydlan mae'r erwau breision hyn.

A chyfoeth o haelioni mae'r nefoedd wedi d'od,
Cynhauaf ei ddaioni a eilw am dy glod ;
I gwrdd yr un dywysen, tydi ni feddu hawl,
Heb fron ddiolchgar, lawen, a chalon lawn o fawl.

O ! 'r llanw gwyn diderfyn, o drugareddau drud,
A fydd i ni eu derbyn fel yr anifail mud ?—
Na, molwn hael Gynaliwr, miliynau'r ddaear faith,
O, doed fel haul yr Awdwr, i'n golwg yn ei waith.

OSSIAN GWENT.

CROES CRIST.

(*Buddugol yn Eisteddfod Ystrad-Rhondda, Nadolig*, 1894.)

CROES Crist yw ymffrost y Cristion,—a hi
Yw pwnc cân nefolion ;
Trengu wnaeth Iesu ar hon,
Er elw daearolion.

Dyffryn Cerdin, Llandysul. BEN DAVIES.

"YN OL AT IESU."

I.

YN mhlith y mwyaf rhyddfrydig a meddwl-agored o'n brodyr Iawnffyddol, clywir y frawddeg hon yn aml iawn yn ein dyddiau diweddaf ni. Mae llawer ohonynt wedi ac yn teimlo yr angenrhaid o gael tir mwy cadarn dan eu traed nag a geir yn y credöau a'r cyffesiadau ffydd, nac hyd yn nod yn y Beibl ei hun, fel Gair Duw. Mae eu dysgawdwyr eu hunain wedi ymuno â'r Beirniaid Beiblaidd (yr *Higher Critics)*, y rhai ydynt wedi gwneyd cymaint er gosod bywyd newydd yn mhersonau hanesyddol y Beibl, ac wedi ein galluogi i sylweddoli y dadblygiad enfawr a wnaed gan y genedl Iuddewig, o fod yn llwythau haner-gwareiddiedig, i allu cynyrchu y person anghymharol hwnw, yr Hwn yw ffynonell y grefydd Gristionogol. Mae y mudiad yma, "Yn ol at Iesu," wedi gwneyd llawer i greu bywyd newydd yn ngwir grefydd ein hoes, ac i roddi sylweddlodeb (*reality*), i ffydd y bobl hyny. i'r rhai yr oedd y credöau wedi myned yn sych a diffrwyth. Mae wedi achosi i filoedd i allu sylweddoli yr Iesu fel person mwy parchus a chariadus nag o'r blaen; ac y mae wedi symud i ffwrdd bwys trymder ac iselder ysbrydol oddiar lawer o eneidiau, ac wedi rhoddi llawenydd a sancteiddrwyd newydd i fywydau nid ychydig o feibion a merched dynion.

Mae y mudiad yma, ynte, yn ddaionus a chymeradwy yn ei hanfod; oblegid y mae llais yr Iesu wedi cael ei gadw yn rhy hir o'n clyw, a'i berson wedi cael ei guddio oddiwrthym gan dduwinyddion ac offeiriad ein byd. Felly, os gallwn gael gafael yn yr Iesu gwirioneddol, a'i addysgiadau, fe fyddwn yn sicr o fod yn agosach at ffeithiau tragywyddol gwir grefydd, ac at y wybodaeth fendigaid o gariad Duw.

Ond at *ba* Iesu yr ydym i fyned yn ol? At yr Iesu syniwyd am dano gan yr Eglwys Gatholig foreu, ddwy neu dair canrif wedi ei ymadawiad â'r byd? neu at yr Iesu ddychymygwyd gan y fath ysgrifenydd a Phaul, yr hwn, er mor ysbrydoledig oedd, nad oedd erioed wedi adnabod yr Iesu hwnw a ddysgai y tyrfaoedd ar y mynydd, ac a eisteddai yn nhŷ Mair a Martha yn Bethania? neu at yr Iesu hwnw y tybia awdwr y bedwerydd Efengyl am dano? neu at yr Iesu a ddesgrifir mewn iaith mor fyw yn yr Efengylau cyntaf a symlaf, y rhai gynwysant y damegion, a llawer i ystori swynol arall? neu, yn olaf, at yr Iesu gwirioneddol Ei Hun, yr Hwn fodolai cyn yr Efengylau, ac o'r Hwn y mae eu portread, o angenrheidrwydd, wedi ei bylu a'i ddiwyno (*blurred*), gan gaddug amser? Yn sicr, os gallwn fyned yn ol at yr Iesu olaf hwn—y cyntaf o ran amser—hyny fydd oreu i ni, ac a wna ein dwyn agosaf at y gwirioneddau hyny a orweddent nesaf at Ei galon; a pha rai yn llawnder Ei ysbrydoliaeth, a draddododd i'r byd.

Mae'n ddiamheu fod gyda ni bortread cywir ac hanesyddol, i raddau helaeth iawn, ohono yn yr Efengylau cyntaf ond os oes yna fodd, trwy ba un y gallwn ddyfod yn agosach fyth ato Ef a'i addysgiadau, byddwn yn awyddus i gael gafael ynddo. Oblegid felly y deuwn i gyffyrddiad â sylfaen hanfodol Cristionogaeth—y grefydd hono at yr hon y dymunai yr Iesu arwain y bobl a gasglent oddiamgylch iddo ar y mynydd neu làn y môr.

Mae'n amlwg ddigon i bob un sydd wedi meddwl am y mater, nad yw yr Efengylau yn rhoddi i ni ddarluniad perffaith gywir a digamsyniol o'r Iesu. Addefir yn awr gan ddysgedigion yr holl Eglwysi, na chafodd un ohonynt ei hysgrifenu yn ei ffurf bresenol am un genedlaeth o leiaf wedi marwolaeth yr Athraw; a chredir gan lawer sydd yn alluog i farnu, fod llawer yn rhagor o amser wedi myned heibio. Mae yn berffaith eglur, ynte, y byddai gwallau a chamgymeriadau yn sicr o lithro i'r ysgrifau hyn. Nid yw cof dynion o'r hyn gymerodd le 30 neu 40 mlynedd yn ol, yn rhyw eglur iawn, a thebyg nad oedd y rhai a ysgrifenent wedi gweled llawer, os dim, o'r hyn yr ysgrifenent am dano. Yr ydym yn rhy barod i anghofio fod yr Efengylau wedi tyfu yn raddol i'w ffurf bresenol—na ddaethant i'r byd yn berffaith a chyfan, ond iddynt gael eu hychwanegu atynt bob yn ychydig gan un ysgrifenydd ar ol y llall, nes iddynt yn raddol dyfu i'w ffurf arosol. Fel engraifft, gallwn nodi fel y mae "Dywediadau yr Arglwydd," gasglwyd gan Matthew, wedi tyfu i'w ffurf bresenol fel Efengyl Matthew. Yr oedd gan bob un o'r rhai yma a ychwanegent ychydig yn y fel hyn at yr ysgrifau eu rhagfarnau a'u meddyliau personol eu hunain, ac hefyd eu gwahanol farnau yn nghylch yr Iesu, a byddent yn sicr o gorffori ychydig o'r rhai yma, nid yn ymwybodol o bosibl, yn yr hyn a ysgrifenent. Dyma yw tueddiad y meddwl dynol bob amser; mae yn sicr o liwio yr hyn sydd yn pasio trwyddo—ni cheir fyth feddwl pur a digymysg y gwreiddiol. Mae yn rhaid i ni, ynte, i geisio dethol yr hyn sydd i'w briodoli i'r Iesu oddiwrth yr ychwanegiadau hyn yn yr Efengylau.

Sut mae i ni wneyd hyn? Wel, dyma reol a all ein helpu: "Os oes yna unrhyw ran yn dangos cariad tuag at y rhyfeddol a'r gwyrthiol, cofiwn y gall hono gael ei phriodoli i ychwanegiad neu ormodiaeth yr adroddwr; ond os, ar y llaw arall, oes yna unrhyw ran yn odidog ac yn berffaith yn ei datguddiad o wirionedd moesol ac ysbrydol, cofiwn fod hono, o angenrhaid, wedi tarddu yn uniongyrchol oddiwrth yr Iesu Ei Hun, a'i bod yn debygol iddo Ef ymhelaethu yn mhellach ar y meddyliau yma." Mae yr adroddwyr yn talu mwy o sylw i'r allanol a'r gwyrthiol, a llai i'r mewnol a'r ysbrydol, nag a delid gan Grist, am eu bod yn apelio yn agosach at eu teimladau a'u meddylddrychau blaenorol.

Pan y trown i'r Efengylau, ni welwn ar unwaith y rhan bwysig mae yr elfen ysbrydol yma yn chwareu yn nysgeidiaeth yr Iesu, a phan gofiom y ffaith wyf newydd nodi allan, bydd yn rhaid i ni gyfaddef fod yr elfen yma yn gorbwyso yn meddwl a chalon yr Iesu wneuthuriad unrhyw wyrthiau y cofnodir am danynt. Dylem, ynte, roddi

mwy o bwys ar yr egwyddorion yma nag yr arferwn wneyd, a threio cael gafael yn, a byw wrth, y gwirioneddau hyny ag oeddynt ffynonell ac ysbrydoliaeth Ei weinidogaeth i'r byd.

Beth yw y gwirioneddau yma? Maent yn ddau mewn nifer—Tadoldeb Duw a Brawdoldeb dyn.

Ymddengys i mi fod yr Iesu wedi dysgu y ddwy athrawiaeth hon gyda'r fath nerth, symlrwydd, ac ymlyniad, yn mhell uwchlaw'r pwysigrwydd mae yr Eglwysi yn weled ynddynt. Ac yn enwedig y mae hyn yn wir am y blaenaf. Llanwai a threiddiai y meddylddrych o Dadoldeb Duw feddwl ac ysbryd yr Iesu, i'r fath raddau, fel nad yw y Gristionogaeth boblogaidd a'r credoau erioed wedi eu sylweddoli. Yn wir, y mae yn arferol i broffesu yr athrawiaeth hon ochr yn ochr â'r athrawiaeth fod y Tad yn Dduw, y Mab yn Dduw, a'r Ysbryd Glan yn Dduw; ond ni roddir iddi y pwysigrwydd anghymharol, ac ni sylweddolir ei hystyr a'i meddwl amrywiol, fel y datguddiodd Iesu hi i ddynion.

Trwy hyn, trwy fethu myned yn ol at Iesu yn llwyr—mae yr Eglwysi wedi colli cyfoeth anmhrisiadwy o ddaioni moesol ac ysbrydol. Bydd yn dda i ni yma, cyn myned yn mhellach, i holi i ni ein hunain beth feddyliai yr Iesu wrth y syniad o Dadoldeb Duw. Dyma, fel y tybiaf, oedd yr argyhoeddiad a geisiai yr Iesu argraffu ar feddyliau Ei ddysgyblion, sef mai yr arwyddlun goreu i ddangos perthynas y Tad Nefol i ddynion yw eiddo tad daearol cariadlawn, y goreu y gallwn feddwl am dano tuag at ei blant; fod tadoldeb iddo ef yn arwyddnod o'r cariad unigol a phersonol dyfnaf, yn ymgeledd ar bob moment, yn berffaith ddoethineb i ragweled a chynllunio rhag blaen, ac yn rhoddi pob anogaeth i'r plentyn i adrodd ei gŵynion a'i obeithion yn nghlust parod i wrandaw ei riant. Dysgai yr Iesu mewn perffaith symlrwydd, fod cariad y Tad tuag at bob un o'i blant yn un personol, o'r tynerwch mwyaf, ac fod yn ngallu y mwyaf egwan ac anmherffaith o blant Duw, ar bob adeg, ac yn mhob lle, i siarad heb un cyfrwng o un math â'i Dad Nefol, ac i gael ganddo yr atebiad yr oedd mewn angen am dano.

Meddyliwch am foment beth feddyliai y fath ffydd ddiysgog a hon, a pha wedd fyddai yn debyg o roddi ar athrawiaethau ac haerdybiau y byd Cristionogol. Buasai yn waith dyddorol iawn i chwilio allan ac i ystyried yr holl ranau hyny o'r Efengylau lle mae yr Iesu yn dysgu yr athrawiaeth o Dadoldeb Duw, ond gomeddir ef i ni yn awr. Gallwn, er hyny, daflu cipolwg dros y tair Efengyl gyntaf, a gweled y rhan bwysig y mae yr athrawiaeth hon yn gymeryd ynddynt. Yn neillduol felly y mae hyn yn wir am Matthew, yr Efengyl hono gynwysa, yn ol y dyb gyffredin, y casgliad o "Ddywediadau yr Arglwydd," wnaed gan yr Apostol ei hun. Mae'n amlwg yma fod yr athrawiaeth hon yn ffurfio prif ysbrydoliaeth yr Iesu, ac yn gorwedd odditan ei holl weinidogaeth.

Dyma'r gwirionedd mwyaf pwysig o lawer yn yr Efengyl, o'r hwn y tardda y gweddill o'r "newyddion da o lawenydd mawr." Yn Luc, er nad yw y gwirionedd mawr a phwysig hwn yn treiddio dysgeidiaeth

yr Athraw i'r fath raddau ag yn Matthew, eto, y mae i'w ganfod yn eglur iawn drachefn a thrachefn, ac yn enwedig yn Nameg y Mab Afradlon y mae wedi cael ei egluro a'i amlygu mewn modd byw ac apeliadol iawn. Yn Marc y mae y gwirionedd yn llai amlwg, ac nid oes yna ond ychydig frawddegau a'n tueddant i gredu fod Duw yn dal y cysylltiad agos o Dad cariadlawn â ni. Yr wyf wedi gollwng y bedwerydd Efengyl allan, am y cydnabyddir yn awr yn gyffredinol ei bod wedi cael ei hysgrifenu yn llawer diweddarach nag un o'r tair arall, ac am ei bod yn anmhosibl i ni roddi yr un credinrwydd i ddywediadau'r Meistr fel eu cofnodir yma ag ydym yn alluog i roi iddynt yn yr Efengylau ereill.

(*I'w barhau.*)

ARHOLIAD YR YSGOL SUL.

[DRWY ryw anhap neu gilydd aeth y rhestr ganlynol ar goll, a methwyd ei chael yn y Rhifyn diweddaf.—GOL.]

PANTDEFAID.—ARHOLWR: PARCH. W. JAMES, B.A., Y.H.

Cyfanswm, 23.

Safon I.—Dosbarth I.

*Rachel Jones, *Elizabeth Davies, *Anne Thomas, *Mary Parry, *Mary Evans, *Anne Jones, *Anne Walters, *Lucy Evans, *Hannah Jones, *Mary Davies, *Margaret Jones, *Mary Jones, *Elizabeth Jones.

Safon II.—Dosbarth I.

Rachel Jones (Ceginanne).

Safon III.—Dosbarth I.

*Hetty Jones, *Getta Thomas, *Anne Jones, *Evan Jones (Pwllgrafel), *Rees Jones, *David Davies, *John Jones, Mary Thomas, Evan Jones (Green Park).

Dynoda * eu bod wedi pasio gydag anrhydedd.

CYMDEITHAS UNDODAIDD DEHEUBARTH CYMRU

CYNALIWYD 98fed Cylchwyl y Gymdeithas uchod yn Hen-Dŷ-Cwrdd, Aberdar, ar yr 11eg a'r 12fed o Orphenhaf, pan yr oedd yn bresenol y Parchn. John Davies, Alltyplaca; J. Hathren Davies, Cefncoed; D. Evans, Wig: J. J. George, ac E. Robinson Hughes, Aberdar: W. James, Llandysul; T. J. Jenkins, Gellionen; J. E. Jenkins, Dowlais; R. C Jones, Llanbedr; R. J. Jones, gweinidog y lle; W. Tudor Jones, Abertawe; W. J. Phillips, Notais; D. Rees, Rhondda; Jenkyn Thomas, Pendleton; J. M. Lloyd Thomas, Nottingham; D. J. Williams, Merthyr; Lewis Williams, Ciliau; J. Robinson, Abercynon; J. Grawys Jones (A.), Trecynon; J. Lewis (M.C.,) Llwydcoed; a'r myfyrwyr canlynol—E. E. Jenkins, Rhydychain; John Evans a Simon Jones, Manchester.

Nos Fercher, ar ol tëa yn Mroniestin, cynaliwyd Pwyllgor o weinidogion, a threfnwyd rhaglen y gweithrediadau.

Am 6.15, dechreuwyd yn hapus iawn gyda chyfarfod y Cymundeb, y Parch. R. C. Jones yn gweinyddu.

Am 7.15, arweiniwyd yn y rhanau defosiynol gan y brawd J. Hathren Davies, a phregethwyd yn nerthol gan T. J. Jenkins a Lewis Williams.

Boreu Iau, am 9, daeth Pwyllgor cryf yn nghyd, a chymerwyd y gadair gan y Llywydd, y Parch Jenkyn Thomas. Darllenwyd a chadarnhawyd cofnodion y cyfarfod o'r blaen, ac etholwyd swyddogion fel y canlyn:—Llywydd, Mr. Lewis Noah Williams, Aberdar; Is-Lywydd, y Parch. William James, B.A., Y.H., Llandysul; ail-etholwyd yr hen Ysgrifenydd a'r Trysorydd, sef Mr. James a Mr. John Evans, cyfreithiwr, Llandysul, y rhai ydynt wedi gwasanaethu'r swydd yn foddhaol am rai blynyddau bellach. Cytunwyd fod y Cyfarfod Blynyddol nesaf i fod yn Llandysul, Mr. W. Tudor Jones i bregethu; Cyfarfod yr Hydref yn Nowlais, Mr. John Davies i bregethu. Penderfynwyd ar Efengyl Luc fel maes llafur yr Ysgolion Sul. Brysier felly gyda'r llyfr cynorthwyol. Awgrymwyd y dymunoldeb o gael Cymdeithas newydd, ar wahan i'r Ysgolion Sul, gyda swyddogion ar wahan, i edrych ar ol budd a lles yr ysgolion, a gofalu am y cyhoeddiadau. Meddylid y gallasai hyny greu dyddordeb mwy byw yn y plant yn ngweithrediadau yr enwad, yn ogystal a dysgu iddynt yn ieuainc y rhinwedd o roi—rhinwedd nad yw wedi ei gwrteithio yn ormodol yn yr enwad erioed. Ni chytunwyd ond mor bell a hyn, sef fod casgliad i gael ei wneuthur yn mhob ysgol unwaith yn y flwyddyn at drysorfa'r Gymdeithas. Ni chafodd y pwnc a godwyd i sylw gan Mrs. Jones, Gellifaharen, yn nghyfarfodydd Ciliau, fawr groesaw. Y pwnc oedd, A gawn ni ddwyn math o Lyfr Gweddi i fewn i wasanaeth ein heglwysi? a phenderfynwyd ef yn nacaol. Codwyd y cwestiwn, Sut y cawn ni ddathlu yn oreu ddechreu y ganrif newydd? Ar ol ychydig ymddyddan, gohiriwyd ef hyd y cyfarfod

nesaf yn Nowlais. Gobeithir yn y cyfamser y cymerir y mater i fyny gan yr holl eglwysi yn wresog, fel ag i drefnu rhyw fesur a fydd yn help i ysgubo i ffwrdd yr holl ddyledion sydd yn gorwedd yn rhai manau fel hunllef ar y gwaith da. Ymdriniwyd â'r pwnc o dalu treuliau ein gweinidogion. Hyd yn hyn y mae'r gweinidogion wedi mynychu'r cyfarfodydd ar eu cost eu hunain, ac mae'r baich lawer pryd wedi profi yn drymach nag oedd yr amgylchiadau yn gyfiawn yn ganiatau. Mae'r pwnc wedi cael sylw o'r blaen, ond mae'r anhawsderau wedi bod hyd yn hyn yn anorfod. Bellach, y mae gobaith yn gwawrio, a mesur o help yn y golwg. Ar ol Ionawr nesaf, rhoddir swm fechan allan o Drysorfa'r Gymdeithas i'r pwrpas hwn. Y pwnc diweddaf a ddygwyd ger bron oedd, Sut i wneuthur yr Ymofynydd yn fwy gwasanaethgar i Undodiaeth? Gohiriwyd hwn eto hyd yr Hydref. Yn y cyfamser, dymuna ysgrifenydd y cofnodion hyn gyflwyno ychydig o awgrymiadau i sylw y cyhoedd, y rhai a allant, os gweithredir arnynt, fod o ryw fudd i'n cylchiolyn. Gadawer i ni gael—1. Mwy o gydymdeimlad â'r Golygydd yn yr anhawsderau a gyferfydd; 2. Gwerthfawrogiad mwy caredig o waith caled a gyflwynir yn hollol ddidâl; 3. Gohebwyr mwy lluosog a ffyddlon, fel ag i sicrhau mwy o amrywiaeth, ac i ysgafnhau y baich a ddichon wasgu yn drwm ar un neu ddau; 4. Cylchrediadl helaethach; 5. Llai o ffeindio beiau, yn enwedig ar ran y cyfryw hyny nad ydynt yn ei ddarllen, nac yn gwneuthur dim tuag at hyrwyddo ei lwyddiant. Beth pe byddai pob un sydd yn caru'r achos Undodaidd yn ceisio cael allan beth fydd effaith gair o ganmoliaeth yn y dyfodol? Dichon y gallai hyny gynyrchu daioni annysgwyliadwy.

Am 11, cafwyd gwasanaeth Saesoneg. Dechreuodd Mr. E. Robinson Hughes, a chafwyd pregeth syml a goleuedig gan Mr. W. J. Phillips.

Am 2.30, ar ol darllen a gweddio gan Mr. James, traddododd y Llywydd, Mr. Jenkyn Thomas, ei anerchiad—anerchiad tlws iawn—ar y "Cysgod a'r Sylwedd." Ar ddiwedd y cyfarfod, yr oedd copïau argraffedig o'r anerchiad ar werth, a chafwyd lluaws o bwrcaswyr parod.

Am 7, dechreuodd Mr. David Rees, a thraddodwyd pregeth y Gymdeithas gan Mr. W. Tudor Jones. Ei destyn oedd, "Heddyw, os gwrandewch, na chaledwch eich calonau," Heb. iii. 7. Gobeithiwn gael gweled y bregeth hon yn argraffedig yn yr Ymofynydd.

Dygwyd y Cyfarfodydd i derfyniad hapus gan Mr. John Davies, yr hwn, yn ei ddull dcheuig ei hun, a adawodd argraff felus ar feddyliau pawb.

Yr oedd y pregethau oll o safon uchel; cafwyd tywydd da hefyd, a phasiodd pob peth yn ddymunol iawn. Diolch am hyny.

ANERCHIAD Y PARCH. JENKYN THOMAS.

Cynygiwyd pleidlais o ddiolchgarwch i Mr. Thomas am ei anerchiad rhagorol gan R. J. Jones, eiliwyd gan John Davies, a chadarnhawyd

yn Saesoneg gan J. M. Lloyd Thomas, a phasiwyd yn unfrydol. Wele yn canlyn rydd-gyfieithiad o eiriau Mr. Lloyd Thomas: "1. *Immanence and Incarnation*—Ymdemliad* ac Ymgnawdoliad yw dau feddylddrych mawr duwinyddiaeth ddiweddar. Gorfoda'r cyntaf ni i edrych ar yr ail fel meddylddrych cyffredinol. Felly mae'r hen Drindodiaeth a'r hen Undodiaeth yn ymdori i fyny o flaen amgyffrediad o Dduw sydd yn ei gydnabod Ef megys yn bresenol hyd yn nod yn y meddwl sydd yn meddwl am dano, yn y cariad sydd yn Ei garu.

"2. Fel canlyniad, pwysigrwydd Personoliaeth Crist ac anmhwysigrwydd cymharol damcaniaethau yn nghylch Crist. Y cwestiwn ofynir i ni heddyw gan y Meistr yw, nid 'A wyt ti yn credu yn Fy Nuwdod pur?' nac ychwaith, 'A wyt yn credu yn Fy nyndod syml?' ond hyn, 'A wyt ti yn Fy ngharu I?' Ac os gallwn ni ddyweyd yn onest, 'Arglwydd, Ti a wyddost,' yna cawn glywed y gorchymyn ymarferol, 'Portha Fy ŵyn.' Dyma egwyddor unoliaethol Cristionogol a ddichon wneyd llawer i iawngred ac arallgred yn un—cariad Crist ac ufudd-dod Iddo. Nid yw'r pwnc o'i Dduwdod syml a'i ddyndod pur ond yn awgrymu dadl sydd wedi myned yn hesp.

"3. Duw—yr un ymresymiad—nid Trindod, nid Undod, ond Duw: yr hanfod a'r sylwedd—nid cysgodau, nid esboniadau uchanianol. Nid yw o fawr pwys pa un a fyddwn yn ei ddychymygu Ef fel Triongl anfeidrol, ynte fel Cylch anfeidrol; fel pigdwr a thair ochr ynte fel cronen undawd. Y peth pwysig yw, A ydyw Ei bresenoldeb yn cael Ei sylweddoli yn yr enaid? Yn yr ysbryd yn unig y datguddir yr ysbryd. Yma eto ceir canolfan newydd, a man cyfarfod ag y mae llawer i Drindodwr ac Undodwr wedi ei derbyn. Bydd farw y ddadl Drindodol, os anwybyddir tri. Ein gwaith ni yw cadw undeb yr ysbryd yn nghwlwm tangnefedd, ac mewn uniondeb bywyd.

"4. Cynlluniau gwaith. Nid dadl, ond amlygiad byw o'r Ysbryd—trwythiad bywyd â chariad, felly yn unig y daw yr adnabyddiaeth o Dduw i guddio'r ddaear, fel y mae'r dyfroedd yn toi y môr.

Y PWYLLGOR.

YSGRIFENIR hanes y Cyfarfod Blynyddol gan law arall. Nid oes a wnelom ond â gweithrediadau y Pwyllgor a gyfarfyddodd boreu dydd Iau am naw—y Llywydd yn y Gadair. Pasiwyd fod y cofnodion am y flwyddyn yn cael eu cadarnhau. Yn adsenoldeb y Trysorydd, darllenwyd y Cyfrifon a'r Fantolen gan yr Ysgrifenydd. Yr oedd y swm o £37 10s. 4c. mewn llaw—rhyw £7 yn llai na'r flwyddyn o'r blaen. Talwyd rhai symiau i fewn yn ystod y cyfarfod, ond mae'n aros eto fod chwech allan o'r ugain o Eglwysi Cymreig wedi methu helpu y

---

* Gair Iolo Morganwg.

Gymdeithas eleni, oherwydd ryw resymau neu gilydd. Mae y swyddogion am y flwyddyn nesaf fel y canlyn:—Llywydd, L. N. Williams, Ysw., Caecoed, Aberdar; Is-lywydd, yr Ysgrifenydd; Ysgrifenydd a Thrysorydd, fel o'r blaen. Penderfynwyd fod y Pwyllgor Arianol i gael ei wneyd i fyny o Swyddogion y Gymdeithas a'r tri canlynol:—Y Parchn. T. Thomas, Y.H., Green Park; R. J. Jones, M.A., Aberdar; a Mr. James, Bryhyfryd, Llandysul. Rhoddwyd adroddiadau byrion, ffafriol ar y cyfan, am yr achosion oeddent wedi eu cynorthwyo gan y Gymdeithas y flwyddyn ddiweddaf. Siaradodd y Parch. J. Davies am Alltyplaca a Sychbant; Parch. R. C. Jones dros Caeronen; Parch. T. J. Jenkins dros Trebanos; Barch. D. Rees dros Pentre a Clydach Vale; Parch. D. Evans dros y Wig; a'r Parch. E. E. Jenkins dros Essex Hall. Ni chafwyd Adroddiad Adran yr Ysgol Sul, gan nad oedd yr Ysgrifenydd, y Parch. T. A. Thomas, yn bresenol. Ond nid oedd cymaint o'i angen, gan fod adroddiad agos cyflawn wedi ymddangos yn yr YMOFYNYDD am Gorphenhaf. Gwnaed un cam yn mlaen gyda golwg ar yr adran yma. Penderfynwyd fod ymdrech i gael ei gwneyd i dalu treuliau yr Adran trwy fod ein Hysgolion Sul ar wahan oddiwrth y cynulleidfaoedd yn gwneyd casgliad blynyddol at yr amcan. Teimlid na fuasai yn ormod o dreth ar ein hysgolion i gasglu rhyw bum' swllt yr un ar y cyfartaledd. Buasai y swm yna oddiwrth bob un o'r ugain ysgol yn fwy na digon at y treuljau, a gellid defnyddio y gweddill i roddi gwobrau yn ychwanegol at y Tystysgrifau i'r ymgeiswyr goreu yn y gwahanol safonau. Credid hefyd y byddai casgliad o'r fath yn help i ddysgu ein plant a'n pobl ieuainc—yr hyn nad yw llawer o bobl mewn oed wedi ddysgu eto fel y dylent—y gelfyddyd o roi at achosion tuallan iddynt eu hunain. Mae hyn yn beth i'w ddysgu i blant fel pob peth arall, ac os na ddysgant pan yn ieuainc, mae perygl iddynt beidio dysgu byth. Deallwn ei fod yn arferiad yn Ysgol Chaning House wneyd casgliad bob *term* at ryw ddau neu dri o achosion dyngarol, a hyn ar wahan oddiwrth y symiau a gyfranant bob Sul yn y capel. Yr ydym yn teimlo yn ddiolchgar i Miss Sharpe am yr addysg werthfawr yma, a chredwn ei bod mor bwysig a'r un gangen arall gyda golwg ar ddiwylliant uchaf aelodau'r ysgol. Penderfynwyd yn derfynol mai Maes Llafur Safon 3 a 4 yw Efengyl Luc, a bod cais yn cael ei wneyd i'r Parch. D. Evans, Cribin, i adolygu ei Holwyddoreg, a'i ail-argraffu ar gyfer Safon 2. Parotoir gofyniadau ar Safon 1 fel o'r blaen. Derbyniwyd awgrymiadau y Pwyllgor Arianol oedd wedi cyfarfod y nos o'r blaen gyda golwg ar y *grants* o'r Drysorfa. Adnewyddwyd y *grant* o £3 i Caeronen at y gwasanaethau *extra* ar nos Suliau; yr un *grant* i Alltyplaca er mwyn yr un amcan; *grant* o £5 i'r Parch. J. Davies ar gyfer ei waith yn Sychbant; £5 i'r Gynulleidfa Gymreig yn Essex Hall; £3 i'r Drysorfa Adeiladu yn Trebanos; £3 i'r Gweinidog; £3 i'r Drysorfa Adeiladu yn y Pentre a Clydach Vale; £5 i'r Gweinidog; a £3 i'r Parch. D. Evans, Wig.

Dygwyd cwestiwn yn mlaen ag mae llawer o siarad wedi bod yn ei gylch trwy ystod ein hanes. Teimlir erbyn hyn nas gellir ei

ochelyd. Mae enwadau ereill wedi ei benderfynu er's blynyddau; ac yr oedd yn eithaf pryd i ninau benderfynu nad yw hi ddim yn iawn i adael ein gweinidogion i dalu eu treuliau teithio i'n cyfarfodydd o'u llogellau eu hunain. Fel *step* yn y cyfeiriad iawn, penderfynwyd fod y swm o £5 i gael ei chyfranu o drysorfa y Gymdeithas at yr amcan yma—y penderfyniad i ddyfod i rym gyda'r ganrif newydd. Wrth gwrs, nid yw £5 yn ddigon i dalu yr holl dreuliau, ond bydd yn help i ddechreu, a dichon y bydd rhai o'n gweinidogion yn dewis glynu wrth yr hen arferiad. Ond nis gellir dysgwyl i'n gweinidogion, sydd yn byw ar eu cyflogau yn unig, lai na chroesawu y drefn newydd.

Gyda golwg ar y cwestiwn o Ffurf-wasanaeth a godwyd yn Nghyfarfod Cilfau, ac a gyfeiriwyd at yr Eglwysi, y teimlad cyffredin oedd nad oeddem yn addfed at gam mor bwysig, ac mae'r peth goreu oedd ei adael yn llonydd ar hyn o bryd. Wrth gwrs, mae gan bob eglwys ar ei phen ei hun ryddid i benderfynu y cwestiwn drosti ei hun.

Bu cryn siarad gyda golwg ar ryw symudiad i ddathlu blwyddyn gyntaf y ganrif nesaf. Awgrymiad cyffredin oedd fod *pull, strong pull, and a pull altogether*, i gael ei wneyd er symud ymaith y ddyled ar gapelau Trebanos, Pentre, a Chlydach Vale. Yr anffawd yw fod 'Bazaar Llundain," a phethau ereill, wedi dihysbyddu ein galluoedd ar hyn o bryd. O'r hyn leiaf, ni wnaed un penderfyniad, ond tebyg y daw y mater yn mlaen eto yn y Cwrdd Chwarterol nesaf. Penderfynwyd fod y Cyfarfod Blynyddol nesaf i fod yn Llandysul; Llywydd: L. N. Williams, Ysw., Aberdar; pregethwr y Gymdeithas, y Parch. W. Tudor Jones, Abertawe. Bydd y Cwrdd Chwarterol nesaf yn Dowlais, Medi 27ain a'r 28ain, y Parch. J. Davies, Alltyplaca, yn traddodi y bregeth.

W. J.

AT Y PARCH. JENKIN THOMAS, PENDLETON.

ANWYL SYR.—Yr wyf wedi darllen eich Anerchiad rhagorol ar "Y Cysgod a'r Sylwedd," gyda phleser digymysg, ac adeiladaeth nid bychan. Yr wyf yn gobeithio y caiff gylchrediad helaeth. Maddeuwch i mi er hyny fy mod yn gorfod cyfaddef fod y paragraff canlynol wedi profi yn gneuen rhy galed i mi allu cael gafael yn nghnewyllyn ei ystyr:—

Tudal. 7.—"Mae yr Ysbryd Tragywyddol wedi gosod rhan ohono Ei Hun o fewn terfynau, er mwyn rhoddi i'w blant gyrff anianol—tabernaclau gwych i fywyd ynddynt."

A fyddwch chwi, gan hyny garediced a rhoi gair o eglurhad?

UN O BLANT YR YSGOL SUL.

PAPYRAU AP CYNON.

Wedi eu Harchwilio a'u Dethol gan HIRFAEN RHYS.

XI.

GWYDDYS yn dda fod mynediad y meddwl i'r ystad athronyddol yn golygu codwm caled i'r syniadau crefyddol a feddir ; ac nid yn anaml y caiff crefydd syml a materol ieuenctid ei thaflu yn bendramwnwgl i'r llawr yn y cyfwng pwysig hwnw. Yn ffodus, nid dros bawb, heb eithrio y mwyaf hirhoedlog yn fynych, y tŷr y dòn hon o ymchwilgarwch ac athronyddu.

"Beth ydyw'r byd yma?" medd awdwr y papyran llychlyd, "beth yw'r nefoedd, a'r ddaear, a pheth wyf fy hun ? Pa fodd y gwn i fod enaid anfarwol yn preswylio yn y babell frau o glai yma ?" Y mae y Beibl yn dyweyd hyny ; ac, yn fwy pwysig fyth i mi, y mae y dynion a barchaf fwyaf yn dyweyd hyny ; pe amheuwn y ffaith am enyd wrth fy mam, neu'm tad, neu'm chwaer, suddaswn hwy yn y gofid dyfnaf ar fy rhan, a chostiasai fy ffolineb fil o ddagrau heilltion iddynt ; ond wedi'r cyfan, paham ? *paham ?*"

Fel y dywedasom eisoes, treuliodd Ap Cynon gyfran faith o'i oes yn nhiriogaeth oer a didrugaredd y Pahamau. Ar droion, hefyd, treuliai ddyddiau maith yn pensyfrdanu uwch dirgeledigaethau anrheiddiadwy Hunan a Bydyaswd. Fel a ganlyn y traetha ar y Trychiolaethau hyn :—

"Hunan ! rhyfeddod y rhyfeddodau ! Y mae pobpeth yn gynwysedig ynddo,—y cread oll nid yw ond drychfeddwl diflanedig o'i fewn. Fel nad oes oleuni heb lygad, fel nad oes lle heb fater, nag amser heb gyfnewidiadau ; felly heb Hunan, does na goleuni, na lle, nac amser ychwaith. Y mae y bydysawd yn grynhöedig mewn Hunan, fel y mae y goleuni yn y llusern ; torer y llusern, a diflana y goleuni. Beth yw y ddaear, y lleuad, yr haul, a'r ser, ond darluniau yn hongian ar barwydydd parlyrau'r meddwl ? Beth yw y gwagder diderfyn, ac amser di-ddechreu, di-ddiwedd, ond rhyw ddyheadau nas gellir fyth mo'u cyflenwi, o fewn yr Hunan mawr ? Mater, Amser, Lle : Trindod Sanctaidd y Materolwr—duwiau gau yn unig ydynt, ac nis addolir hwy ond gan y cibddall a'r ffol.

"Gofynwch i'r dwl ei feddwl pa beth yw *i fyny*, neu *i lawr*, a chwardda am eich pen—gŵyr y doeth mai ystadau o'r meddwl yw y ddwy—termau perthynasol ydynt.

"Oni ddywed Gwyddor wrthym mai a'i *ben i lawr* y gwelwn bob peth yn y byd ; ond pa ffol a gred hyny ?

" Y gwirionddyn hurt ! onid a dy ben i lawr y cerddi, y sefi, neu yr eisteddi y fynyd yma—o safbwynt trigianydd Zealand Newydd ?

"I arall gofyn eto pa beth yw *mater?* pa beth yw *lle?* a dechreua feddwl pa wallgofdy f'o mwyaf cyffeus i'th dderbyn.

"Ni wnaeth Galileo ond dyweyd fod y ddaear yn troi, ac wele, lidiogrwydd Cred yn ymwlawogi ar ei ben; ond, '*e pur se muove,*' 'troi y mae hi wedi'r oll,' ys d'wedodd yntau.

"*Mater*, a *Lle*—mae'r cwestiwn yn aros, Beth ydynt? Medd un, delweddau ydynt ar fôr llydan hanes: oes iddynt sylwedd nis gwyddom: efallai nad ydynt ond cysgodion yn nghonglau tywyllion Hunan—cysgodion o blygion Hunan ei hunan. Ai ynte cysgodion ydynt o rywbeth tuallan i Hunan, os gellir hefyd son am *duallan* a *thufewn* fel rhyw bethau neu ryw fanau ar wahan i'w gilydd. Tuallan, pa beth ydyw tuallan? Ai nid y myfi yw yr oll? Os felly, pa fodd y geill fod dim oddiallan iddo?

"Ond pa beth yr wyf yn ei draethu? Ha, egwan *fi!* Y myfi—mor fawr, mor fychan; mor gryf, mor wan; mor wybodus, mor anwybodus: a'r cread i gyd o'i fewn, ac yntau yn rhan ddistadlaf o'r cread anherfynol!"

Ar droion ereill eto cawn yr athronydd yn llwyr golli ei hunaniaeth yn moroedd dilerfyn y bydysawd. Megys darlunydd yn eistedd wrth lan y môr, weithiau cawn ef yn edrych ar y cyfan fel darlun asur mawreddog o'i flaen, ac ynysoedd gwyrddion yn ei fritho yma a thraw: brydiau ereill cawn ein hathronydd yn gado craig gadarn sicrwydd hunan-fodolaeth, ac yn taflu ei hun, fel pe bai, i ganol dwfn amhlymiedig y greadigaeth, ac yn suddo, suddo yn ei fychander, yn mhell, bell, dros y golwg yn y gwaelodion obry.

Cawn weithiau brofion amlwg o'i aml gymundebau nosawl âg eangderau'r ffurfafen, a gororau tangnefeddus y ser. Cyll olwg, gan faint ei fychander, arno ei hun, ar ei wlad, ei belen frodorol, ïe, ei ffurfafen gymydogol ei hun, ac nid oes dim yn amlwg i'w olygon ond tystion dysglaerion, mud y pellderoedd tragwyddol. Ond, ofnwn ein bod yn gwneyd defnydd gormod o'n geiriau ein hunain, lle y bai geiriau yr ymchwiliwr ei hun yn tra rhagori arnynt yn eu darluniaeth a'u dyddordeb:—

"Neithiwr yr oeddwn yn crwydro wrth fy hun yn nhawelwch dystaw dwfn y rhos; nid oedd twrf i'w glywed ond sû undonog felancolaidd awel laith y gorllewin rhwng y cawn, a'r grug, a'r llwyni eithin anwydog, y rhai, gan naws oeraidd yr awel a gwrewdent yn isel yn y borfa, ac ar benau'r cloddiau a ymddangosent yn rhesi o fwganod, rhy drist a phenisel yr olwg i darfu y neb mwyaf egwan ei ysbrydoedd. Yr oedd y lloer yn dysgleirio ar lawnt ddwfn-asur y nefoedd fel lwmp o arian wedi ei gaboli yn ngweithfa rhyw ddewin yn mro'r planedau, a'r ser rhwng agenau'r cymylau pygddu a gyson dramwyent o'r gorllewin i'r dwyrain, yn hongian fel mil o lusernau trydanol yn yr eangderau meithion fry. Dyma olygfa gwerth trafaelio pellder daear i'w gweled, ac eto, un y geill pob un ei mwynhau o'i drothwy ei hun.

"Dyma gyfle i weled rhai o orchestweithiau'r Llaw Anfeidrol. Y mae'r cymylau, fel lleni tewion, du, yn symud yn araf, a byd newydd r ol byd newydd, ac haul newydd ar ol haul newydd yn dangos eu

hwynebau, a'r *panorama* yn cyfnewid ei arddechogrwydd bob mynyd o flaen fy llygaid. A pheth yw y nifer o fydoedd a welaf ar y wyneb, at y nifer sydd yn llechu o'r tu ol mewn dyfnderau nas geill y pellwelyr cryfaf gasglu digon o oleuni ohonynt i'w gwneuthur yn weledig i lygad egwan dyn. Gofyn y meddwl annigonadwy, I ba bwrpas y crëwyd y miloedd heuliau, a'r myrddiynau bydoedd hyn? Pa beth yw eu neges ar eu taith? I ba le y chwyrnellant, fel cerbydau cawrangylion, hyd lwybrau di-ôl y ffurfafenau pell? Dywedir wrthyf fod y gyfundrefn nefol yn cael ei gwneyd i fyny o heuliau, a phob haul, megys bugail y mynydd glas didramwy, yn gofalu am braidd bychan diaros, ac heb ddangos arwydd o flinder nag unrhyw wendid er miloedd o flwyddi o dramwyo dibaid. Yr heuliau hyn, drachefn, fe ddywedir wrthyf, â'u preiddiau gyda hwy (fel y bugail a'r praidd yn cyd-droi hefo'r ddaear, heb yn wybod iddynt hwy) a droant oll o gylch rhyw ganolbwynt enfawr, nas gall yr astronomyddion na rhifyddwyr mwyaf pen-feithion daear hyd yma roddi yr un amgyffred leiaf o'i safle na'i bellder o'n daear fechan ni. Canolbwynt y crëad! y morgrugyn a lŷn wrth ei dwmpath ei hun, dyna ganolbwynt ei grëad ef. Yr aderyn, erbyn yr hwyr a dŷn i'w loches yn nghangenau ei hoff bren yn y goedwig dawel,—gwnaed pobpeth er gwneuthur ei drigfan ef yn ddedwydd rhwng y brigau braf; 'does yr un goedwig arall yn werth byw ynddi, ac yn wir amheua'r aderyn fod neb yn byw yno o gwbl: ei nyth ei hun yw canolbwynt crëad aderyn.

"Mawr yw dwndwr dyn; diddiwedd yw ei ffwdan wrth drafaelio gwyneb ei belen—ei dwmpath bach ei hun. Croesa agen newydd, caiff afael mewn dernyn newydd o bridd ar ei dwmpath bychan, ac wele ei enw yn anfarwol dros wyneb ei belen gron—fel Dr. Hwn-a-Hwn, y Darganfyddwr Enwog. Un arall wedi ei haner syfrdanu 'nol cyrhaeddyd uchelion llwchyn, a gyhoedda mai tyweirch ereill yw y gronynau a welir yn y pellder, ac mai tân (efallai tân tyweirch!) a welir yn y pellder y tuhwnt; ac wele holl breswylwyr y bellen ddinod yn gwaeddi yn unllais—'Ymaith âg ef; tafler ef i garchar swynwr peryglus, neu wallgofddyn ydyw!'

"Nid myfi, nid y byd ychwaith, yw adeilad canolog dinas dragywyddol y crëad. Y mae pileri yr adeilad hwn wedi eu planu ar ddiddym yn y gwagle mud yn dragywyddol gêl rhag llygad gwibiog haul a seren, a phwy a wyr nad yn yr adeilad hwn, yn mhell bell o drueni bydoedd, oerfel lleuadau, a gwres heuliau y cynelir uchel-lys yr Hen Ddihenydd?

"Un byd y sydd—na, y mae rhagor nag un byd yn bod, ond nad oes fodau rhesymol mewn un byd arall—dyna olygiad gwŷr goleuedig (?) yr oes hon.

"Pa bryd y ceir gan ddyn edrych ar ffeithiau yn ddigywilydd ac yn syth yn eu gwynebau? Y *mae* bydoedd ereill—i bob pwrpas y maent ar yr un *plan* a'n byd ninau - felly y maent yn addas i fywyd i fodoli o'u mewn. Pwrpas ein byd ni, hyd y gwyddom, yw cynyrchu a gweini ar *fywyd*. Gwnaed pobpeth i bwrpas - teg yw casglu ynte mai llochesu bywyd yw pwrpas y bydoedd ereill hefyd. Os yw bywyd

yn dadblygu yno fel ag y mae yn ein byd ni, nid oes amheuaeth nad oes yno fôd cyn rhesymoled a ninau, a chryn resymolach na llawer ohonom, mi obeithiaf. A chaniatau hyn oll, onid bychan yw un dyn, o un wlad, o un ddaear, o un gyfundrefn, o filoedd o gyfundrefnau ereill? Mor ddibwys i mi yw bywyd un Chinëad allan o 400,000,000? Ond mor bwysig yw ei fywyd bach i'r Chinëad ei hun? Ei fwthyn bychan, mor bwysig ydyw iddo—dim llai na Chanolbwynt y Cread. Dyna ffynonell camsyniadau'r oesau, camosodiad Canolbwynt y Cread. Hwn yw'r pegwn ag mae gwirionedd wedi bod yn ei chwilio drwy y canrifoedd, gan aberthu nerth a llafur, ie, gwaed ei galon yn yr ymdrech. Ato y mae Gwyddor wedi bod yn ymgeisio hyd yr oesau; ef y mae addolwyr y gwledydd wedi addoli er y cynfyd—yr Anweledig, yr Anwybyddadwy, y Gwirionedd Mawr Canolog—Enaid a Chalon Anian—Canolbwynt disigl y Cread!"

Pa beth yn gywir a feddylia ein brawd yn y papyryn hwn, nis honiwn ein bod yn hollol ddeall; lled-dybiwn yn aml ei fod yn myned dros ei ddyfnder ei hun. Amlwg yw fod Dirgelwch mawr bywyd yn bwnc yr ymladdodd mor ffyrnig âg ef nes llethu ei ysbryd a'i feddwl, a rhwygo ei ddillad sef iaith, yn fratiau oddiam danynt. Treiddia ei feddwl o dywyllwch i dywyllwch, ac am y dirgelwch, nid erys ond dyfnder yn galw ar ddyfnder. Fel aderyn y nos gwel oleu y fan draw, ehed ato, tarewa ei adenydd wrth y ffenestr, ond nis caiff fynd i mewn—syrth i'r llawr yn lluddedig a chlwyfus. Ond ai yn ofer y ceisia'r meddwl ymgodymu â dirgelwch ei fodolaeth? Ai yn ofer y chwiliwn am wirionedd! Medd doethawr Chelsea, "Syll yn ddyfal," os am weled dillad dirgelwch materol yn graddol ddiflanu, a'r Gwirionedd, yn ei noethder cynhenid, yn sefyll yn fyw o'n blaen.

(I'w barhau.)

H. R.

Y DON AR Y TRAETH.

UN hardd yw'r dòn goronog ar y lli',
Ond ar y traeth hi dry yn emau gwyn;
A chlywaf Lais yn sibrwd imi hyn:
"Os hardd dy oes, mwy hardd ei diwedd hi."

"Yn mynwes dyn 'e blanwyd gobaith gwell
Y daw i Làn, rhyw ddydd, o gefnor oes,
Lle try yn fwyniant bob rhyw chwerw loes,
A'r Heli'n Win ar làn rhyw Draethell Bell."

Arfwylaf Lais awelon oesau hir;
O! na chawn gredu fod dy eiriau'n wir.

SARNICOL.

CYMANFA GANU CEREDIGION, 1901.

SUT i ddathlu dechreu'r ganrif newydd? Pa lwybrau i gymeryd yn ystod ei blynyddau cyntaf? Pa dir newydd ddylasem dori? Dyma rai o'r gofyniadau gynygiant eu hunain i ni, fel ag i'r enwadau ereill, y dyddiau hyn.

Wel, ynte, a gaf fi osod allan gynllun parthed y Gymanfa Ganu nesaf yn Ngheredigion? Mae tipyn o newid awyr yn lles i iechyd corff dyn, medd y meddyg. Ai ni fuasai tro i làn y môr yn lles i'r Gymanfa Ganu? Dychymygaf glywed y plant a'r cantorion ieuainc, yn fechgyn a merched, yn bloeddio allan yn un llef—"Wrth gwrs, wrth gwrs." I sicrhau hyn, ynte, gofalwch siarad â'ch gilydd cyn bydd i'r Pwyllgor gyfarfod yn Awst neu Medi i wneyd trefniadau am y flwyddyn ddilynol, a chofiwch ddanfon eich cynrychiolwyr i gyfarfod y Pwyllgor wedi eu cyfarwyddo pa fodd i bleidleisio yn newisiad lle i gynal y Gymanfa, yr arweinydd, y tônau, &c.

O'm rhan i fy hun, carwn weled y Gymanfa nesaf yn cael ei chynal yn Aberystwyth. Gellid yn rhwydd gael *joint excursion* yn gynar yn y dydd fel ag i gyrhaedd Aberystwyth mewn pryd i gael y Gymanfa yn y boreu Mae ein profiad yn Abertawe yn dyweyd wrthym mai annoeth fuasai cynal cyfarfod yn y prydnawn. Mae pob mantais i gael Cymanfa lwyddianus yn Aberystwyth, ac mae'n bosibl i ni gael canu y fath nas clywodd y lle ei gystal erioed o'r blaen. Rhaglen byr, wedi ei feistrioli yn dda, ddylasai fod y nôd. I gyfarfod â'r treuliau ffurfier trysorfa mewn cysylltiad â phob Ysgol Sul, a thaler swm bychan—ceiniog neu ddwy—i fewn bob Sul yn rheolaidd.

Ond paham y cymeraf fi arnaf fy hun i drefnu? Mae genym swyddogion nad oes eisieu eu gwell yn mhob busnes o'r fath. Un peth cyn terfynu—gofalwch gantorion ieuainc, fo'l eich lleisiau yn glywadwy yn nghyfarfod nesaf y Pwyllgor, a myner *outing* i'r Gymanfa Ganu y flwyddyn nesaf—blwyddyn gyntaf y ganrif newydd—a gwneler hi y Gymanfa fwyaf pwysig a mwyaf llwyddianus yn ein hanes.

J. G. C.

Y CWMWL.

BYDENWOG gerbyd anian,—hyglodus
Gludydd y gwlaw'n mhobman
Yw'r Cwmwl crog,—neu glog glan
Yn y nwyfre yn hofran.

Glan Cerdin. T. THOMAS.

ACHUBWYD Y BABAN.

Yr Offeiriad yn Llefaru :—

"MEWN pryd, mewn pryd, O mor dda yw Duw !
Bu farw y baban, ond eto mae'n fyw !
Rho'w'd arwydd y Groes ar ei ael mewn pryd,
Mae yn awr gyda'r engyl, a gwyn ei fyd !"

Y Fam :—

" Mewn pryd, ond gallasai fel arall, Och fi !
Nid pawb all'sai redeg fel gwnaethoch chwi !
Pe b'asech ar ol, Och ! ai uffern dân
F'asai tynged drag'wyddol fy machgen glan ?"

Yr Offeiriad :—

" Nis gal'em ond gadael ei dynged gas
I Dduw a'i anghyfamodol ras."

Y Fam :—

" O gyfaill parchedig, dywedwch i mi
Ydyw tynged plant bach yn eich dwylaw chwi ?
Ydyw gras cyfamodol Duw'r nef yn dibynu
Ar allu offeiriad i redeg yn heini ?"

Inquirer, 31, III. '00.

"CODIAD A CHYNYDD CREFYDD RYDD YN ABERTAWE."*

DYMA lyfr y dymunwn ei gymhell yn wresog i sylw darllenwyr yr Ymofynydd. Teimlwn yn ddiolchgar i'r awdwr am anturio ei argraffu, a gobeithiwn y gwna'r cyhoedd, yn enwedig y cyhoedd Undodaidd, ei helpu i ddwyn y draul trwy ei brynu. Y fordd oreu i gael hanes crefydd yn Nghymru, fel y dylai fod, yw cael hanes y gwahanol eglwysi wedi eu hysgrifenu yn debyg fel mae hwn. Nid yw Mr. Jones wedi ymgymeryd â'i orchwyl mewn ysbryd sectarol ; nid oes yn ei lyfr ddim sydd yn awgrymu fod ysbryd rhyfel yn ei fynwes. Ysgrifena yn deg ac yn foneddigaidd o'r dechreu i'r diwedd. Rhydd i ni hanes dyddorol o'r modd y treiglodd yr eglwys drwy ei gwahanol gyfnewidiadau meddyliol hyd yn bresenol. Y mae'r eglwys yn High Street yn un o'r rhai hynaf a feddwn (1689), ac ystyriwn yr hanes yn werthfawr. Bywgraffiadau dyddorol yw eiddo Richard Aubrey, G. B. Brock, Ed. Higginson, &c. R. J. J.

---

* "*The Rise and Progress of Religious Free Thought in Swansea. By W. Tudor Jones, F.R.C.S.*" *I'w gael gan yr Awdwr. Pris* 1*s.* 6*c.*

LILI'R GLYN.

AR fil rhagora'r Lili,—â'i gwerdd glog,
A'i heirdd glych difrychni ;
Gŵyl ac hoff yw ei golwg hi,
A Duw'n gofalu am dani.

AB HEVIN.

MANION AC HANESION.

CEFNCOED. — Cynaliwyd ein *picnic* eleni ger llaw eglwys henafol y Faenor. Yr oedd yr hin yn ffafriol iawn, a thorf luosog wedi dyfod yn nghyd. Da genym allu dyweyd fod ein Hysgol Sul ar hyn o bryd yn dra llewyrchus, ac hyderwn y pery felly yn hir.

EIN MYFYRWYR.—Ar eu ffordd o Fanceinion i Geredigion, arosodd y ddau frawd ieuanc, Simon Jones a John Evans, am ychydig ddyddiau yn ardaloedd Merthyr ac Aberdar. Pregethodd Mr. Simon Jones yn y Cefn ac Aberdar, a Mr. J. Evans yn y Cefn a Dowlais, a rhoddasant foddlonrwydd mawr.

DOWLAIS.—Yn ddiweddar cyflwynodd yr eglwys yn y lle hwn anrheg gostfawr o awrlais hardd i'w gweinidog. y Parch. J. E. Jenkins. ar achlysur ei briodas. Yn y cyfarfod llywyddwyd gan Mr. John Lewis, a chymerwyd rhan gan amryw o aelodau yr eglwys, yn nghydag ereill o Ferthyr a'r Cefn.

LLWYDDIANT.—Bydd yn dda gan ein darllenwyr i ddeall am lwyddiant y ddau fyfyriwr ieuanc, John Evans a Simon Jones, o Goleg Cenadol yr Undodiaid (H.M.C.) yn Manchester. Mae y ddau wedi pasio yr ail arholiad (*Intermediate*) am y gradd o B.A. yn Mhrifysgol Victoria. Da genym weled ein dynion ieuainc yn gweithio yn mlaen yn y fel hyn ; mae yn adlewyrchu clod arnynt hwy ac ar yr enwad y perthynant iddo. Rhwydd hynt a phob llwyddiant iddynt eto yn y dyfodol yw dymuniad goreu —*Cyfaill.*

LLWYDDIANT ETO.—Da iawn genym weled enwau y ddau gyfaill ieuanc, Goronwy Jones, Broniestyn, a D. J Jenkins, yn mhlith y sawl a lwyddasant i basio y *Matriculation* yn Mhrifysgol Llundain Hefyd, mewn Arddangosfa a gynaliwyd yn ddiweddar yn Merthyr, enillwyd y wobr flaenaf am gerfwaith gan Mr. D. W. Jenkins, Cefncoed, a'r ail wobr gan Mr. D. Jones o'r un lle. Mae y blaenaf yn aelod yn yr Hen-Dy-Cwrdd, a'r llall yn Tabor, eglwys Annibynol, a'r ddau yn enedigol o sir Aberteifi.

Y GRAIG A GELLIONEN.—Nos Sul, Gorphenhaf 1af, cafwyd un o'r cyfarfodydd adroddiadol a cherddorol goreu a glywsom erioed gan blant bach yr Ysgol Sul. Yn sicr, mae dyfodol gloew yn aros rhai ohonynt, yn ddiamheuol. Amser ddengys. Cydganodd y plant yn fendigedig, ac yr oedd eu lleisiau melodaidd yn planu awydd moli yn ein calon. Bydded y diolch i'r ddau frawd sy'n dysgu'r plant, Mri. Johnny a Willie Williams. Oni bai fod eu nifer yn lluosog carasem osod eu henwau yn yr YMOFYNYDD ; boddloner ar hynyna. Gwych y bo'ch bob un.—Eto, y nos Sul dilynol, cawsom y pleser o wrando cwrdd adrodd arall, a'r plant eto oedd grym ac asgwrn cefn y cyfryw. Be wyddis nad oes proffwydoliaethau i ddyfodol oesau lu gan blant yr oes brysur hon! Ymdrecher i'r dô ieuanc gael y manteision goreu. Yn yr adroddiadau amrywiol a gafwyd, yr oedd gwers dda odiaeth yn mhob nn ohonynt, yr hyn a osododd goron brydferth ar y ddau gyfarfod. Diolchir i'r gweinidog, T. J. Jenkins, am lywyddu mor ddoniol a deheuig ; ac hyderwn mai byr y bo'r amser cyn cael cyfarfod eto o'r un natur.

EIN MYFYRWYR. — Efallai na fu genym erioed o'r blaen y fath nifer ac ar yr un amser yn paratoi ar gyfer y weinidogaeth, a'r rhai hyny hefyd yn fechgyn ieuainc llawn sêl a brwdfrydedd, yn gystal ag o addewid am y dyfodol. Prawf o hyn yw y ffaith iddynt yn ddiweddar i wneyd apêl at Bwyllgor y Gymdeithas Gymreig i drefnu ei chyfar-

fodydd yn y fath fodd ag y byddai yn bosibl iddynt hwy fod yn bresenol. heb ymyru â'u dyledswyddau fel myfyrwyr. Nid anhawdd i rai ohonom ydyw cofio am ddosbarth hollol wahanol. Mae rhyw ddeuddeg o fyfyrwyr Cymreig, oll ond un, feddyliwn, wedi eu magu yn sir Aberteifi, ar hyn o bryd yn y gwahanol golegau; un yn Ngholeg Caerfyrddin, dau yn Aberystwyth, pedwar yn Ngholeg Manchester, Rhydychain, a phump yn yr Home Missionary College, Manchester. Da genym grybwyll fod y rhan fwyaf ohonynt wedi pasio yn llwyddianus yr arholiadau diweddar. Mae John Evans a Simon Jones wedi gorchfygu yr *Intermediate B.A.* yn Mhrifysgol Victoria. Un arholiad sydd ganddynt mwyach cyn graddio. Enillodd Simon Jones yr Hydref diweddaf Ysgoloriaeth Durning Smith o £90 y flwyddyn. Gwelir hefyd enw John B. Kane yn rhestr myfyrwyr llwyddianus Coleg Caerfyrddin. Pasiodd Watkin Samuel Jones mewn dwy gangen yn ychwanegol at y tair o'r blaen, ar gyfer y B.A. yn Mhrifysgol Cymru. Yr oedd un ohonynt gyda'r anhawddaf i'w meistroli yn yr holl raglen, sef yr *Ordinary Mathematics*. Pasiodd John Park Davies mewn tair o gangenau yn ychwanegol at y pedair o'r blaen, ar gyfer yr un gradd, ac yn yr un brifysgol. Mae ei lwyddiant yn glod neillduol iddo, gan nad yw wedi bod ond dwy *Session* yn y Coleg. Dim ond tair cangen sydd ganddo mwy i'w meistroli cyn graddio. Mae Davies yn ysgolor *external* yn Ngholeg Manchester, Rhydychain, ac wedi enill yr *Exhibition* o £50 y flwyddyn oddiyno, heblaw fod ganddo ysgoloriaeth sirol o £15 y flwyddyn, o Ysgol Ganolraddol Llandysul, a'i fod wedi enill ysgoloriaeth o £5 y flwyddyn, Mehefin diweddaf, fel un o ryw ugain o'r myfyrwyr ddarfu enwogi eu hunain yn arholiadau trimisol Coleg Aberystwyth, yn ystod y *Session*. Nis gwyddom hanes ein myfyrwyr yn Rhydychain. Efallai y gwna rhywun gwblhau yr ystori ddyddorol yn y rhifyn nesaf. — *Hen Fyfyriwr.*

PRIODASAU.

MEHEFIN 13eg, yn Nghapel Twynyrodyn, Merthyr, gan y Parch. J. E. Jenkins, Dowlais, Mr. Thomas Michael Lewis, unig fab Mr. John Lewis, Bryntirion Street, â Miss Mary Rawlinson, merch Mr. C. Rawlinson, Bee Hive Hotel,—y ddau o Dowlais.

"I Mair a Tom, boed byd heb siom,
Ac aelwyd lawn o hoender;
Boed hyd eu hoes heb awel groes,
I beri ing a blinder."

AR yr 11eg o Orphenaf, yn Nghapelygroes, Mr. Evan Jones, meistr Gweithdŷ yr Undeb, Llanbedr, â Mrs. Anne Jones, Cefnhafod Inn, Llanwenog. Aed trwy y seremoni gan weinidog y lle, yn mhresenoldeb Mr. D. Evans, y Cofrestrydd. Hir oes a llwyddiant i'r ddau.

MARWGOFION.

MEHEFIN 7fed, ar ol tair wythnos o gystudd trwm, yn Kingstown, Luz. Co., Pa., U.D.A., Margaret, gwraig John Powell, a merch Griffith Watkins, Club Street, Aberaman, yn 29 oed. Daearwyd yr hyn oedd farwol ohoni ar y 9fed yn Nghladdfa Forby Fort y Parch. T. C. Edwards, D.D. (Cynonfardd), yn gwasanaethu. Yr 8fed o Awst diweddaf yr ymadawodd â'i hen gartref, a hyny er mwyn cyfarfod â'i darpar wr; ac ar yr 17eg, fe'i hunwyd mewn glan briodas,

ac wele mor fuan y newydd trist ei bod wedi dianc—trist i'r tad a'r fam a'r teulu; trist i'w phriod, wedi ei adael yn weddw mor gynar; a thrist i'w brawd a'i deulu yn y wlad bell Nerth a gaffont oll i droi eu hwynebau i'r unig fan lle mae dyddanwch yn nydd galar. Yr oedd Mrs. Powell yn aelod yn yr Hen Dŷ-Cwrdd er yn ieuanc, a rhoddwyd iddi Feibl a Llyfr Emynau i'w hadgofio am fangre grefyddol ei hieuenctid.

"Trwy ddirgel ffyrdd mae'r uchel Ior."

MEHEFIN 15fed, yn 14 wythnos oed, William John, baban bach David ac Elizabeth Bowen, Trebanos. Claddwyd ef y dydd Mawrth dilynol wrth Gelli-onen. Gwasanaethodd y gweinidog, y Parch. T. J. Jenkins, a gweddïwyd ar lan y bedd gan frawd i'r gweinidog, Mr. Evan Jenkins, Coleg Manceinion. Dad a mam, nac wylwch mwy ar ol eich angel tlws, ond bwriwch hyder ar eich Tad o'r nef.

GORPHENHAF 6ed, yn 71 oed, Mr. John Evans, Pantycroy, ger Llandysul. Blin genym gofnodi marwolaeth y brawd ffyddlawn hwn. Y Sadwrn cyn ei farwolaeth, yr oedd i bob ymddangosiad yn ei iechyd arferol, ac yn brysur gyda'i orchwylion; ond yn yr hwyr, cymerwyd ef yn glaf iawn, a chyn pen wythnos ehedodd ei ysbryd at Dad yr holl ysbrydoedd. Yr oedd yr ymadawedig yn un a berchid yn fawr gan luo gyfeillion a chydnabod, am ei ymarweddiad gonest, ei gydymdeimlad parod, a didwylledd ei amcanion. Yr oedd yn aelod ffyddlawn yn y Graig, ac anfynych oedd ei le ef yn wâg. Gadawodd yr ymadawedig bedair o ferched a thri o feibion i alaru ar ei ol, un o ba rai ydyw Mr. John Evans, cyfreithiwr, Llandysul, a Thrysorydd Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru. Y dydd Mawrth canlynol, daeth torf luosog yn nghyd i dalu y deyrnged olaf o barch iddo, pryd y cludwyd ei weddilion i Gladdfa Llwynrhydowen. Gwasanaethwyd gan y Parch. Arthur Thomas, yn cael ei gynorthwyo gan y Parch. J. Davies, Alltyplaca. Dydd Sul ar ol y gladdedigaeth, cynaliwyd gwasanaeth coffadwriaethol yn y Graig, Llandysul, pryd y pregethodd y gweinidog i gynulleidfa fawr oddiar y geiriau, "Mi a ymdrechais ymdrech deg," &c.

GORPHENHAF 9fed, yn 12 mlwydd oed, Lucy, anwyl ferch Mr. a Mrs. Evans, Pwllffein. Merch fechan brydferth a dengar ydoedd Lucy. un a hoffid yn fawr gan bawb a'i hadwaenai. Yr oedd yn ffyddlawn iawn yn Ysgol Sul Pantydefaid, ac yr oedd wedi pasio yr arholiad blynyddol diweddaf gydag anrhydedd. Diamheu pe cai fywyd ac iechyd y gwnai lanw cylch defnyddiol mewn cymdeithas. "Nid ein meddyliau ni yw Ei feddyliau Ef, ac nid ein ffyrdd ni yw Ei ffyrdd Ef." Nerth gaffo'r tad a'r fam, y brodyr a'r chwiorydd, i ymgynal o dan y brofedigaeth. gan gredu ei bod yn ngofal y Tad goreu, Y dydd Iau canlynol, gosodwyd ei gweddillion marwol yn Mynwent Pantydefaid, yn nghanol arddangosiad o alar dwfn. Aed drwy'r gwasanaeth arferol gan y Parch. Arthur Thomas, ac ar lan y bedd gan y Parch. T. Thomas, Y.H.

GORPHENAF 14eg, David Lewis, 80, Ystrad Road, Pentre Rhondda, yn 34 mlwydd oed. Claddwyd ef y dydd Mercher canlynol yn Nghladdfa Gyhoeddus Treorci. Gwasanaethwyd gan y Parch. David Rees, Pentre. Yn mhlith y galarwyr gwelsom Mrs. Anne Davies, Pantydolau, Llanybyther (modryb), a'r Parch Lewis Williams, Rhydygwin (cefnder). Mab oedd David Lewis i Lewis a Charlotte Lewis. o'r cyfeiriad uchod, ond gynt o Geredigion, a mynychent addoliad cyhoeddus yn Alltyplaca. Ymfudodd yr ymadawedig tua naw mlynedd yn ol i Awstralia, lle y priodod. Yno y mae ei weddw a'i ddau blentyn yn awr. Pan y cymerwyd ef yn glaf tua deunaw mis yn ol, cynghorwyd ef gan ei feddyg i dalu ymweliad â'i wlad enedigol. yn y gobaith y buasai y fordaith yn foddion i'w adferyd i iechyd; ond siomwyd pawb yn y dysgwyliad. Daeth yn amlwg yn fuan ar ol iddo gyrhaedd tŷ ei rieni, nas gallasai ail uno â'i deulu yn Awstralia. Bu ei gyfansoddiad anarferol gryf yn foddion i gadw ei ddolur (tyfiant ar yr ymenydd) odditanodd am amser maith, ond ar ol cystudd hir a chaled, yr hwn a ddyoddefodd mewn sirioldeb anghredadwy, bron, efe a ragflaenodd ar y dyddiad a nodwyd. Ysbryd siriol a gobeithiol David Lewis fyddo yn rhan y rhieni, y chwaer, a'r brodyr sydd yn galaru ar ei ol.

Joseph Williams, Argraffydd, Swyddfa'r "Tyst" a'r "Cenad Hedd," Merthyr.